



2015



**SICRHAU EIN DYFODOL CYNALIADWY
ARGYMHELLION I LYWODRAETH NESAF CYMRU**

**DELIVERING OUR SUSTAINABLE FUTURE
RECOMMENDATIONS FOR THE NEXT WELSH GOVERNMENT**

Y WELEDIGAETH


Mae gan Lywodraeth nesaf Cymru gyfle gwych i wneud pethau mewn ffordd wahanol.

Wrth i'n pwerau datganoledig ddatblygu ymhellach, bydd gan Weinidogion gyfleoedd newydd i fabwysiadu dull gwahanol yng Nghymru o fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaen ac o helpu ein cenedl i ffynnu.

Mae WWF Cymru eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru weithio dros ddyfodol gwell i'n pobl a'n planed.

I ni, mae hynny'n golygu:

- Llywodraeth sy'n rhoi blaenoraieth i lesiant - sef iechyd, hapusrwydd a ffyniant - pobl Cymru, nid i dwf economaidd yn unig
- Llywodraeth sy'n gwneud ein cenedl yn lanach ac yn wyrddach – gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050
- Llywodraeth sy'n helpu Cymru i ffynnu o fewn adnoddau ein planed, gan olygu ein bod yn gallu ymdopi â newidiadau yn y dyfodol a'n bod yn gydneth



RHAID I GYMRU LEIAU
EI HALLYRIADAU NWYON
TŶ GWYDR O LEIAF 80%
ERBYN 2050

WALES MUST CUT
ITS GREENHOUSE GAS
EMISSIONS BY AT LEAST
80% BY 2050

THE VISION

The next Welsh Government has a great opportunity to do things differently.

As our devolved powers develop further, Ministers will have new opportunities to take a distinctive Welsh approach to tackle the challenges ahead and help our nation thrive.

WWF Cymru wants the next Welsh Government to work for a better future for our people and our planet.

To us, that means:

- A Government whose priority is the wellbeing of the people of Wales – health, happiness and prosperity - not just economic growth
- A Government that makes our nation cleaner and greener – cutting greenhouse gas emissions by at least 80% by 2050
- A Government that helps Wales thrive within the resources of our planet, making us 'future proof' and resilient

YR HER

Mae ein gwlad eisoes wedi cymryd cam unigryw tuag at ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu y byddwn yn awr yn gwneud dewisiadau er budd cenedlaethau'r dyfodol, nid er ein budd ein hunain yn unig. Rydym yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhaid i'w Rhaglen Lywodraethu ymrwymo i gyflawni'r nodau hirdymor a nodir yn y Ddeddf: Cymru lewyrchus; Cymru gydnherth: Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Er mwyn sicrhau'r dyfodol hwn a buddion dull unigryw Cymru, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Ddarparu polisiau a rhagleni credadwy a fydd yn cyflawni'r nodau hyn
- Cydgysylltu rhagleni er mwyn sicrhau buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws yr holl nodau yn y Ddeddf.
- Rhoi mwy o bwyslais ar amgylchedd iach pan wneir penderfyniadau a chynlluniau.
- Gweithredu'n gyflym a gydag ymroddiad i sicrhau'r newid y mae ei angen ledled y Llywodraeth.



**MAE'N RHAIÐ I
LYWODRAETH NESAF
CYMRU YMRWYMO
I WEITHREDU DEDDF
LLESIANT CENEDLAETHAU'R
DYFODOL**

**THE NEXT WELSH
GOVERNMENT MUST
COMMIT TO THE
DELIVERY OF THE
WELL-BEING OF FUTURE
GENERATIONS ACT**

THE CHALLENGE

Our country has already taken a unique step towards a future where people and nature thrive.

The Wellbeing of Future Generations Act means that we will now make choices in the interests of future generations, not just our own. We believe the next Welsh Government must commit to the delivery of the Well-being of Future Generations Act.

Its Programme for Government must be dedicated to delivering on the long term goals set out in the Act: A prosperous Wales; A resilient Wales; A healthier Wales; A more equal Wales; A Wales of cohesive communities; a Wales of vibrant culture and thriving Welsh language; a globally responsible Wales.

To secure this future and the benefits of Wales' unique approach, the next Welsh Government must:

- Provide credible policies and programmes that will deliver those goals
- Join-up programmes to deliver social, economic and environmental benefits across all the goals in the Act.
- Place greater emphasis on a healthy environment when decisions and plans are made.
- Act with real pace and commitment to deliver the change needed throughout Government.

NEWIDIADAU ALLWEDDOL

Dyma'r newid/rhagleni y byddai WWF Cymru'n disgwyl eu gweld gan lywodraeth sydd wedi ymrwymo i Gymru wirioneddol gynaliadwy:

CARTREFI CYNNES I BAWB

Mae gwella ein stoc tai trwy fesurau arbed ynni'n dod â llawer o fuddion. Drwy leihau'r galw am ynni mae'n cwtogi ar ein hallyriadau ac yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn cyfrannu at dwf economaidd a chreu swyddi, yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac anghydraddoldebau iechyd¹.

Felly dylai rhaglen gynhwysfawr o fesurau effeithlonrwydd ynni fod yn un o gonglfeini'r gwaith o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dydolol (Cymru) 2015, ac mae'n hanfodol i Raglen Lywodraethu yn y dyfodol.

Yn ddiweddar comisiynasom ymchwil ar effaith mesurau effeithlonrwydd ynni yng Nghymru a maint y newid y mae ei angen er mwyn cyrraedd ein targedau ar gyfer lleihau allyriadau erbyn 2020. Nododd fod angen inni gynyddu'n sylweddol y gwaith i wella ein stoc ta².

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Ymrwymo i effeithlonrwydd ynni fel blaenoriaeth yn y cynllun seilwaith hirdymor, a chefnogi hyn gydag ymrwymiad i raglen fawr o fuddsoddi cyfalaf.
- Gosod nod i bob cartref yng Nghymru fod ym Mand C o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni erbyn 2025³.
- Pennu ymagwedd strategol newydd at ddefnyddio systemau gwres carbon isel i ategu'r rhagleni effeithlonrwydd ynni.



DYLAI LLYWODRAETH NESAF
CYMRU OSOD NOD I BOB
CARTREF YNG NGHYMRU FOD
YM MAND C O'R DYSTYSGRIF
PERFFORMIAD YNNI ERBYN 2025

THE NEXT WELSH GOVERNMENT
SHOULD SET A GOAL THAT ALL
HOMES IN WALES MEET ENERGY
PERFORMANCE CERTIFICATE
BAND C BY 2025

KEY CHANGES

The change/programmes that WWF Cymru would expect to see from a government committed to a truly sustainable Wales are:

WARM HOMES FOR EVERYONE

Upgrading our housing stock through energy saving measures delivers many benefits. By reducing energy demand it cuts our emissions and helps tackle climate change. It also contributes to economic growth and job creation, as well as tackling fuel poverty and health inequalities⁴.

A comprehensive programme of energy efficiency measures should therefore be a cornerstone programme for the implementation of Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015, and it's essential to a future Programme for Government.

We recently commissioned research on the impact of energy efficiency measures in Wales and the scale of change needed to meet our 2020 emission reduction targets. It identified that we need to significantly scale up action to improve our housing stock².

The next Welsh Government should:

- Make a commitment to energy efficiency as a priority in the long term infrastructure plan, backed up with a commitment to a major capital investment programme.
- Set a goal that all homes in Wales meet Energy Performance Certificate Band C by 2025³.
- Set a new strategic approach to the uptake of low carbon heat to complement the energy efficiency programmes.

ECONOMI GYNALIADWY

Yn y byd cydgyssylltiedig sydd ohoni, mae llwyddiant a chydnerthedd hirdymor economi unrhyw genedl yn dibynnu ar gynhyrchu ychydig o carbon a defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Adlewyrchir hyn yn y nod 'Cymru lewyrchus' yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'n golygu bod yn rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru adeiladu ar y twf yn yr economi werdd a bwrw ymlaen â newid ein heconomi gyfan i un sy'n wirioneddol gynaliadwy, gan wella ein bywydau heddiw ac yn y tymor hir.

Mae cyflawni hyn yn galw am warchod a gwella ein hadnoddau naturiol, fel y nodir yn y nod 'Cymru gydnerth' yn y Ddeddf.

Ond rydym hefyd yn dibynnu ar adnoddau naturiol o rannau eraill o'r byd. Felly, mae'n rhaid inni hefyd ystyried ein risgau a'n cyfrifoldebau mewn cyd-destun byd-eang, gan sicrhau ein bod yn cyflawni 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Er mwyn sicrhau buddion i bob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru, rhaid cynllunio'r newid hwn yn awr, i'w gyflawni dros y tymor canolig i'r tymor hir.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Hybu'r gwaith o warchod a gwella ein hadnoddau naturiol trwy eu hintegreiddio i'r Cynllun Seilwaith Cenedlaethol⁴
- Ysgogi arloesi a buddsoddi mewn effeithlonrwydd adnoddau er mwyn lleihau gwastraff a hybu economi gylchol
- Sicrhau bod caffael cyhoeddus yn hybu cynaliadwyedd trwy roi blaenoriaeth i nwyddau sydd wedi'u hardystio fel rhai a gynhyrchwyd mewn ffordd gynaliadwy a moesegol e.e. pren y Cyngor Siwardiaeth Coedwigoedd, pysgod MSC, te Masnach Deg
- Datblygu cynllun ar gyfer 'newid cyflawn' i swyddi gwyrdd, fel bod gweithwyr mewn diwydiannau carbon ddwys a thanwyddau ffosil yn manteisio ar gylleoedd yn y sectorau adnoddau naturiol ac ynni adnewyddadwy.



**DYLAI LLYWODRAETH
NESAF CYMRU
DDATBLYGU CYNLLUN AR
GYFER 'NEWID CYFLAWN' I
SWYDDI GWYRDD.**

**THE NEXT WELSH
GOVERNMENT SHOULD
DEVELOP A PLAN FOR A
'JUST TRANSITION' TO
GREEN JOBS.**

A SUSTAINABLE ECONOMY

In today's connected world, the success and long-term resilience of any nation's economy depends on being low carbon and resource efficient.

This is reflected in the 'Prosperous Wales' goal of the Well-being of Future Generations Act.

It means that the next Welsh Government must build on the growth in the green economy and push forward the transition of our whole economy to one that is truly sustainable, improving our lives both now and in the long term.

Achieving this requires the protection and improvement of our natural resources, as outlined in the Act's 'Resilient Wales' goal.

But we also depend on natural resources from other parts of the world. Therefore, we must also consider our risks and responsibilities in a global context, ensuring we deliver a 'Globally Responsible Wales'.

To ensure benefits for all of Welsh society, this transition must be planned now, for delivery over the medium to long term.

The next Welsh Government should:


- Promote the protection and improvement of our natural resources by integrating them into the National Infrastructure Plan⁴
- Drive innovation and investment in resource efficiency to reduce waste and encourage a circular economy
- Ensure public procurement promotes sustainability by prioritising goods certified as sustainably and ethically produced e.g. FSC timber, MSC fish, Fair Trade tea
- Develop a plan for a 'just transition' to green jobs, so that workers in carbon-intensive and fossil fuel industries take up opportunities in the natural resources and renewable energy sectors.

MOROEDD IACH A CHYNHYRCHIOL

Mae moroedd Cymru'n gartref i amrywiaeth fawr o rywogaethau a chynefinoedd. Maent yn darparu adnoddau, gan gynnwys bwyd ac ynni, a chyfleoedd i wella ein hiechyd a'n lles. Fodd bynnag, mae ein moroedd yn fwyfwy prysur. Gallai diffyg gwarchodaeth ddigonol a gwaith rheoli cydgysylltiedig beryglu gallu ein moroedd i ddarparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Sicrhau y cyflwynir mesurau effeithiol erbyn 2016 fel y gall moroedd Cymru gyrraedd Statws Amgylcheddol Da erbyn 2020 (fel sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol)
- Gweithredu cynllunio morol sydd wedi'i seilio ar y 'dull ecosystem', gan sicrhau y datblygir ein moroedd mewn modd cynaliadwy
- Gwella'r warchodaeth i rywogaethau a chynefinoedd trwy gwblhau rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys yn y môr mawr. Gwella'r gwaith rheoli a gorfodi ar y safleoedd morol gwarchodedig presennol.



DYLAI LLYWODRAETH
NESAF CYMRU WELLA'R
WARCHODAETH I
RYWOGAETHAU A
CHYNEFINOEDD MOROL.

THE NEXT WELSH
GOVERNMENT SHOULD
IMPROVE PROTECTION
OF MARINE SPECIES
AND HABITATS.

HEALTHY AND PRODUCTIVE SEAS

Welsh seas are home to a wide variety of species and habitats. They provide resources, including food and energy, and opportunities to improve our health and well-being. However, our seas are increasingly busy. A lack of adequate protection and coordinated management could jeopardise the ability of our seas to provide for future generations.

The next Welsh Government should:

- Ensure effective measures are introduced by 2016 so that Welsh seas can reach Good Environmental Status by 2020 (as required under the Marine Strategy Framework Directive)
- Implement marine planning that is based on the 'ecosystem approach', ensuring the sustainable development of our seas
- Improve protection of species and habitats by completing a network of Marine Protected Areas, including in the offshore area. Improve the management and enforcement on existing protected marine sites.

RHAGLEN NEWID DATBLYGU CYNALIADWY I'R LLYWODRAETH

Yn awr mae angen i'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus yng Nghymru wneud newidiadau mawr i'r ffordd y maent yn gweithio er mwyn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo llawer o gyrrf cyhoeddus i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u cynlluniau ar gyfer newid trwy'r Rhwydwaith Mabwysiadwyr Cynnar. Mae'n glir o'r gwaith cychwynnol hwn bod angen newid diwylliannol mawr yn y ffordd mae'r sector cyhoeddus cyfan yn meddwl ac yn gweithredu er mwyn cyflawni'r nodau go iawn. Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain y newid hwnnw, gan gydweithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'n hanfodol i hyn ddechrau yn 2016.

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu Rhaglen Newid ar gyfer ei gweithrediadau hithau. Rhaid i hon gael ei hysgogi a'i monitro gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'i harwain gan Brif Weinidog Cymru.

Dyma flaenoriaethau WWF Cymru ar gyfer y Rhaglen Newid:

- Rhaglen hyfforddiant ar gyfer pob lefel o'r llywodraeth a sefydlu 'canolfan wybodaeth'
- Adolygu systemau cylchidebol ac ariannol i sicrhau eu bod yn gyson â'r gwaith o gyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy e.e. mae'n bosibl y bydd angen diweddarau dadansoddiadau cost a budd, fel nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn cenedlaethau'r dyfodol
- Adolygu a diwygio systemau rheoli perfformiad ac offer asesu, i unigolion ac i adrannau. Mae hyn yn cynnwys datblygu asesiadau o'r effaith o ran carbon ar gyfer cylchidebau.
- Sicrhau bod rhagleni mawr y Llywodraeth fel Diwygio'r Sector Cyhoeddus yn cael eu llunio a'u dylunio i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



RHAID I LYWODRAETH
CYMRU WEITHREDU
RHAGLEN NEWID AR GYFER
EI GWEITHREDIADAU
HITHAU.

WELSH GOVERNMENT
MUST IMPLEMENT
A PROGRAMME FOR
CHANGE FOR THEIR
OWN OPERATIONS

SUSTAINABLE DEVELOPMENT CHANGE PROGRAMME FOR GOVERNMENT

Government and the public sector in Wales now need to make major changes to how they work in order to implement the Well-being of Future Generations Act. The Welsh Government has supported many public bodies to develop their understanding and plans for change through an Early Adopters' Network. It is clear from this initial work that to really deliver on the goals requires a major culture change to the way the whole public sector thinks and operates. Welsh Government must lead that change, working closely with the Future Generations Commissioner over the next 10 years. It is vital this starts in 2016.

Welsh Government must implement a Programme for Change for their own operations. It must be driven and monitored by the Permanent Secretary and led by the First Minister.

WWF Cymru's Priorities for the Change Programme are:

- A training programme for all levels of governance and establishing a 'knowledge hub'
- Review of budgetary and financial systems for coherence to delivery of the sustainable development principle e.g. cost benefit analyses may need updating, so that they do not discriminate against future generations
- Review and reform of performance management systems and assessment tools, both for individuals and departments. This includes developing carbon impact assessment of budgets.
- Ensuring that major Government programmes such as Public Sector Reform are shaped and designed to deliver the Wellbeing of Future Generations Act goals.

ÔL-NODIADAU

1. Spreading the Net: the Multiple Benefits of Energy Efficiency: IEA
www.iea.org/publications/insights/ee_improvements.pdf

2. Progress towards Residential Energy Reduction Targets in Wales (2015).
assets.wwf.org.uk/downloads/150724_final_report_copy.pdf

Crynodeb yr adroddiad:

assets.wwf.org.uk/downloads/1__summary_report_formatted_welsh.pdf?_ga=1.260323085.1451674408.1405498548

3. Mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn amcangyfrif, er mwyn i bob cartref yng Nghymru fod ym Mudiad C o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni erbyn 2035, bydd angen buddsoddi oddeutu £3 miliwn ac y byddai £780 miliwn o'r swm hwn yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. www.iwa.org.uk/en/publications/view/240

4. A Greener Budget :Sustaining our prosperity in a Changing World:
assets.wwf.org.uk/downloads/wwf_greenerbudget_summary_download.pdf?_ga=1.86321880.1384157423.1401463040

END NOTES

1. Spreading the Net: the Multiple Benefits of Energy Efficiency: IEA
www.iea.org/publications/insights/ee_improvements.pdf

2. Progress towards Residential Energy Reduction Targets in Wales (2015).
assets.wwf.org.uk/downloads/150724_final_report_copy.pdf

Summary Report:

assets.wwf.org.uk/downloads/final_summary_report.pdf

3. IWA estimates that for all homes in Wales to meet Energy Performance Certificate Band C by 2035, this will require investment of around £3billion, £780million of which would be within the next Assembly term.
www.iwa.org.uk/en/publications/view/240

4. A Greener Budget :Sustaining our prosperity in a Changing World:
assets.wwf.org.uk/downloads/wwf_greenerbudget_summary_download.pdf?_ga=1.86321880.1384157423.1401463040

**MAE DYLETSWYDD AR
LYWODRAETH NESAF
CYMRU I SICRHAU DYFODOL
CYNALIADWY I NI.**

**RHAID I'R GWAITH O WYNEBU'R
HER HONNO DDECHRAU YN AWR.**

PWY FYDD YN MYND Â CHYMRU YMLAEN?

wwf.cymru/manifesto
#WWFDyfodolCymru



Pam rydyn ni yma

I roi terfyn ar ddiaraddio amgylchedd naturiol y blaned ac i greu dyfodol lle mae pobl yn byw mewn cytgodol â natur.

wwf.org.uk

WWF-UK, elusen gofrestredig rhif 1081247 a chofrestredig yn yr Alban rhif SC039593.
Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif 4016725. Symbol y panda © 1986 ac ® "WWF" Nod Masnach Cofrestredig WWF-World Wide Fund for Nature (World Wildlife Fund gynt). WWF-UK, The Living Planet Centre, Rufford House, Brewery Road, Woking, Surrey, GU21 4LL, ffôn:+44 (0)1483 426333

**THE NEXT WELSH
GOVERNMENT HAS A
DUTY TO DELIVER OUR
SUSTAINABLE FUTURE.**

**MEETING THIS CHALLENGE
MUST START NOW.**

WHO WILL TAKE WALES FORWARD?

wwf.wales/manifesto
#WWFSustWales



Why we are here

To stop the degradation of the planet's natural environment and to build a future in which humans live in harmony with nature.

wwf.org.uk

WWF-UK, registered charity number 1081247 and registered in Scotland number SC039593.
A company limited by guarantee number 4016725 © 1986 Panda symbol and ® "WWF"
Registered Trademark of WWF - World Wide Fund For Nature (formerly World Wildlife Fund).
WWF-UK, The Living Planet Centre, Rufford House, Brewery Road, Woking, Surrey, GU21 4LL,
t:+44 (0)1483 426333